


Bydd y Nadolig ychydig yn wahanol eleni.



Onid beth bynnag y byddwch yn ei wneud, peidiwch â rhoi anrheg Nadolig na gwledd Dydd Gwener Gwyllt i dwyllwr.



www.getsafeonline.org

Sut i siopa ar-lein yn ddiogel y Nadolig a'r Dydd Gwener Gwylt hwn.

Mae 2020 wedi bod yn flwyddyn ryfedd iawn, ac mae llawer ohonom bellach yn meddwl am y Nadolig. Mae'r pandemig yn rhan o'n bywydau o hyd, ac ni allwn ragweld beth fydd yn digwydd dros yr ŵyl, yn enwedig o ran dod at ein gilydd, mynd i ffwrdd a sut y byddwn yn dathlu.

Fodd bynnag, mae dau beth yn sicr cyn ac ar ôl y Nadolig.

Bydd y rhan fwyaf ohonom yn prynu anrhegion a nwyddau tymhorol eraill ar-lein, yn fwy nag erioed o'r blaen. A bydd yn dal yn amser poblogaidd o'r flwyddyn i sgamwyr sy'n hoffi targedu siopwyr Nadolig a Dydd Gwener Gwylt er mwyn eu twyllo.

Mae cymaint ar ein meddyliau yr adeg hon o'r flwyddyn ond, eleni, mae ein hiechyd ein hunain ac iechyd ein hanwyliaid yn ystyriaeth ychwanegol, yn ogystal ag ansicrwydd posibl o ran gwaith ac arian, heb anghofio lluo o bethau eraill a fydd yn tynnu ein sylw yn sgil y sefyllfa bresennol.

Dyna pam ei bod yn arbennig o bwysig eich bod yn diogelu eich hun, eich teulu a'ch arian pan fyddwch ar-lein.

Rydym wedi llunio'r awgrymiadau diogelwch arbenigol hyn sy'n hawdd eu dilyn er mwyn helpu i'ch diogelu rhag bod yn darged twyll tymhorol.

- Pan fyddwch yn siopa ar-lein, gwnewch yn siŵr bod y gwefannau yn ddilys drwy gadarnhau bod y cyfeiriad wedi'i sillafu'n gywir. Yn ddefnyddol, dylech ei deipio i mewn yn hytrach na chlicio ar ddolen mewn e-bost, neges destun neu neges ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae'n hawdd i sgamwyr greu gwefannau ffug sy'n debyg iawn i'r rhai go iawn.
- Pan fyddwch yn talu, gwnewch yn siŵr bod y dudalen yn ddiogel drwy gadarnhau bod y cyfeiriad yn dechrau gyda 'https' (mae'r 's' yn sefyll am 'secure') a bod clo clap yn y bar cyfeiriad. Rhybudd ychwanegol: mae hyn yn golygu bod y dudalen yn ddiogel, ond gallai twyllwyr fod yn gyfrifol am y wefan o hyd.
- Mae llawer o hysbysebion am eitemau fel anrhegion, gwyliau a digwyddiadau ar y cyfryngau cymdeithasol a fforymau ar-lein yn rhai dilys, ond byddwch yn ymwybodol bod rhai eraill yn dwyllodrus. Byddwch yn arbennig o wylidwrus wrth gadarnhau bod hysbysebion o'r fath yn rhai dilys.
- Ni waeth pa mor benderfynol rydych o brynu'r anrheg hwy honno neu eitem nad yw mewn stoc yn y siopau, peidiwch â thalu am unrhyw beth drwy drosglwyddo arian yn uniongyrchol i bobl neu gwmnïau nad ydych yn eu hadnabod. Os mai twyll ydyw, mae'n annhebygol y gall y banc adfer nac ad-dalu eich arian. Talwch â cherdyn credyd os gallwch chi. Mae'r un peth yn wir am wyliau, teithiau a thocynnau.
- Allgofnodwch o'r dudalen we neu'r ap ar ôl talu. Mae'n bosibl na fyddwch yn allgofnodi'n awtomatig drwy gau'r dudalen yn unig.
- Nid yw nwyddau ffug o ansawdd cystal, maent yn torri rheolau hawlfraint ac yn effeithio ar fywoliaeth gweithwyr sy'n creu'r nwyddau go iawn. Gallant fod yn beryglus i ddefnyddwyr hefyd. Peidiwch â'u prynu'n fwriadol – ni waeth pa mor rhad ydynt na pha mor dda maent yn edrych – a gwnewch bopeth o fewn eich gallu i sicrhau mai'r hyn rydych yn ei brynu yw'r peth go iawn.
- Dylech osgoi cyfnodau treialu 'rhad' neu 'am ddim' – boed hynny ar gyfer y ffôn symudol diweddaraf neu dabledi colli pwysau – heb ddarllen y print mân ac adolygiadau dibynadwy yn drwyadl. Gallech fod yn cofrestru i dalu debyd uniongyrchol misol drudfawr sy'n anodd iawn ei ganslo.
- Os byddwch yn trefnu gwyliau dros y gaeaf neu seibiant byr, cadarnhewch fod yr hyn rydych yn ei archebu ar-lein yn ddilys drwy wneud gwaith ymchwil manwl. Chwiliwch am adolygiadau annibynnol, a gwnewch yn siŵr bod asiantaethau teithio / gweithredwyr teithiau yn ddilys drwy chwilio am rif ABTA/ATOL. Talwch â cherdyn credyd i gael diogelwch ychwanegol.
- Y Nadolig yw un o hoff adegau sgamwyr i anfon negeseuon e-bost, negeseuon testun neu negeseuon uniongyrchol twyllodrus, neu rannu cynigion twyllodrus ar y cyfryngau cymdeithasol. Gyda mwy o bobl yn siopa ar-lein yr adeg hon o'r flwyddyn, mae hysbysiadau danfon gan gwmnïau ffug ar ffurf atodiadau neu ddolenni yn gyffredin, yn ogystal â negeseuon e-bost a negeseuon eraill sy'n cynnwys 'cynigion arbennig' a 'gwobrau'. Peidiwch â chlicio ar ddolenni mewn negeseuon e-bost, negeseuon testun na negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol os nad ydych yn eu disgwyl, a pheidiwch ag agor atodiadau annisgwyl mewn negeseuon e-bost.



I gael rhagor o wybodaeth am siopa ar-lein yn ddiogel, ewch i www.getsafeonline.org

Get Safe Online

Get Safe Online yw'r ffynhonnell fwyaf blaenllaw o wybodaeth a chyngor ar ddiogelwch ar-lein yn y DU, i'r cyhoedd a busnesau bach. Mae'n bartneriaeth nid er elw rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat sydd wedi'i chefnogi gan nifer o adrannau'r llywodraeth, asiantaethau gorfodi'r gyfraith a sefydliadau blaenllaw ym maes diogelwch y rhyngwyd, bancio a manwerthu.

I gael rhagor o wybodaeth a chyngor diduedd arbenigol sy'n hawdd ei ddilyn ar ddiogelu eich hun, eich teulu, eich arian, eich dyfeisiau a'ch gweithlu, ewch i www.getsafeonline.org

Os byddwch yn credu eich bod wedi cael eich twyllo ar-lein, rhowch wybod i Action Fraud, sef canolfan genedlaethol y DU ar gyfer rhoi gwybod am dwyll a seiberdrosedd, drwy ffonio **0300 123 20 40** neu drwy fynd i'r wefan www.actionfraud.police.uk

Yn yr Alban, gallwch roi gwybod am dwyll i Heddlu'r Alban drwy ffonio 101.



www.getsafeonline.org

OFFICIAL PARTNERS

